***Status:** This is the original version (as it was originally made). This item of legislation is currently only available in its original format.*

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2005 Rhif 1356 (Cy.104)

# LANDLORD A THENANT, CYMRU

## Rheoliadau Tribiwnlysoedd Prisio Lesddaliadau (Gweithdrefn) (Diwygio) (Cymru) 2005

| | | |
|---|---|---|
| *Wedi'u gwneud* | - - | *17 Mai 2005* |
| *Yn dod i rym* | - - | *31 Mai 2005* |

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru, drwy arfer y pwerau a freiniwyd ynddo o dan adran 35(5) o Ddeddf Landlord a Thenant 1987(**1**) ac Atodlen 12 i Ddeddf Cyfunddaliad a Diwygio Cyfraith Lesddaliad 2002(**2**), ac ar ôl ymgynghori â'r Cyngor Tribiwnlysoedd, yn gwneud y Rheoliadau canlynol:

### Enwi, cychwyn a chymhwyso

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Tribiwnlysoedd Prisio Lesddaliadau (Gweithdrefn) (Diwygio) (Cymru) 2005 a deuant i rym ar 31 Mai 2005.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys o ran ceisiadau a gyflwynir, neu achosion a drosglwyddir o lys, i dribiwnlys prisio lesddaliadau, ynghylch mangreoedd yng Nghymru ar neu ar ôl 31 Mai 2005.

### Diwygio Rheoliadau Tribiwnlysoedd Prisio Lesddaliadau (Gweithdrefn) (Cymru) 2004

**2.** Diwygir Rheoliadau Tribiwnlysoedd Prisio Lesddaliadau (Gweithdrefn) (Cymru) 2004(**3**) yn unol â rheoliadau 3 i 8.

### Cymhwyso'r Rheoliadau

**3.** Yn rheoliad 1 (enwi, cychwyn a chymhwyso), yn lle paragraff (3), rhodder —

> "(3) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys o ran unrhyw gais a wneir, neu achos a drosglwyddir o lys, i dribiwnlys prisio lesddaliadau ynghylch tir ac adeiladau yng Nghymru ar neu ar ôl —

(**1**) 1987 p.31. Mae adran 35(5) wedi'i diwygio gan adran 163(2) o Ddeddf Cyfunddaliad a Diwygio Cyfraith Lesddaliad 2002 (p.15) ("Deddf 2002"). Trosglwyddwyd swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol o dan adran 35(5), i'r graddau y maent yn arferadwy o ran Cymru, i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan erthygl 2 o Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672) ac Atodlen 1 iddo. O dan adran 177 o Ddeddf 2002, mae cyfeiriadau at Ddeddf 1987 yn O.S. 1999/672 i'w trin fel cyfeiriadau at y Ddeddf honno fel y'i diwygiwyd gan Ran 2 o Ddeddf 2002.

(**2**) 2002 p.15. *Gweler* adran 179(1) i gael y diffiniad o "the appropriate national authority" o ran Cymru.

(**3**) O.S. 2004/681 (Cy.69).

(a) yn achos cais o'r disgrifiad a bennir ym mharagraff 8 o Atodlen 1, 31 Mai 2005;

(b) mewn unrhyw achos arall, 31 Mawrth 2004.”.

**Manylion ceisiadau**

**4.** Yn rheoliad 3 —

(a) ym mharagraff (3), yn lle “ym mharagraff 2”, y tro cyntaf y mae'n digwydd, rhodder “yn unrhyw un o is-baragraffau (b) i (dd) o baragraff 2”; a

(b) ar ôl paragraff (7), mewnosoder y paragraff a ganlyn —

“(7A) Pan fo cais o'r disgrifiad a bennir ym mharagraff 8 o Atodlen 1 (penderfyniad a oes cyfamod neu amod wedi'i dorri) rhaid cynnwys y manylion a'r dogfennau a restrir ym mharagraff 7 o Atodlen 2 gyda'r cais.”.

**Penderfynu heb wrandawiad**

**5.** Yn rheoliad 13(1), yn lle is-baragraffau (a) i (c), rhodder yr is-baragraffau canlynol —

(a) “os yw wedi rhoi i'r ceisydd a'r ymatebydd ddim llai na 28 diwrnod o hysbysiad ysgrifenedig o'i fwriad i fynd rhagddo heb wrandawiad llafar; a

(b) os nad yw'r ceisydd na'r ymatebydd wedi cyflwyno cais i'r tribiwnlys am gael gwrandawiad,

ond nid yw'r paragraff hwn yn lleihau effaith paragraff (3).”.

**Arolygiadau**

**6.** Yn rheoliad 17, yn lle paragraffau (4) i (7), rhodder y paragraffau canlynol —

“(4) Pan fydd archwiliad i'w gynnal, rhaid i'r tribiwnlys roi hysbysiad i'r partïon.

(5) Rhaid i hysbysiad o dan baragraff (4) —

(a) datgan dyddiad, amser a lle'r archwiliad; a

(b) cael ei roi nid llai na 14 diwrnod cyn y dyddiad hwnnw.”.

**Disgrifiadau o'r ceisiadau**

**7.** Yn Atodlen 1, ar ôl paragraff 7, mewnosoder y paragraff a ganlyn —

“**Penderfynu a oes cyfamod neu amod wedi'i dorri**

**8.** Ceisiadau o dan adran 168(4) o Ddeddf 2002.”.

**Manylion ceisiadau**

**8.** Yn Atodlen 2 —

(a) ym mharagraff 1 (rhyddfreinio ac estyn lesoedd), ar ôl is-baragraff (5), mewnosoder yr is-baragraff canlynol —

“(6) Ac eithrio pan fydd cais yn cael ei wneud o dan adran 24, 25 neu 27 o Ddeddf 1993, copi o'r les.”;

(b) ym mharagraff 6 (amrywio lesoedd), ar ôl is-baragraff (2), ychwaneger yr is-baragraff canlynol —

“(3) Copi o'r les.”; ac